

VAUGHAN, HILDA CAMPBELL (1892 - 1985), awdur

Enw: Hilda Campbell Vaughan
Dyddiad geni: 1892
Dyddiad marw: 1985
Priod: Charles Langbridge Morgan
Plentyn: Elizabeth Shirley Vaughan Paget (née Morgan)
Plentyn: Roger Morgan
Rhiant: Hugh Vaughan Vaughan
Rhiant: Eva Vaughan (née Campbell)
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Katie Gramich

Ganwyd Hilda Vaughan yn Llanfair-ym-Muallt, Sir Frycheiniog, ar 12 Mehefin 1892, yn ferch i Hugh Vaughan Vaughan (1855-1937), cyfreithiwr, a'i wraig Eva (g. Campbell, 1863-1932). Ganwyd ei thad yn Sir Faesyfed a chadwodd ei gysylltiadau â'r sir honno, gan wasanaethu fel Is-Siryf y Sir, Clerc y Cyngor Sir a Chlerc yr Awdurdod Addysg Lleol. Addysgwyd Hilda Vaughan gartref gan athrawesau preifat, ac arhosodd adre yn nh ei rhieni tan gychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yna, dechreuodd weithio i'r Groes Goch ac wedyn daeth yn Ysgrifenyddes Weithredol ar Fyddin Tir y Merched yng nghefn gwlad Siroedd Brycheiniog a Maesyfed. Ar ôl y rhyfel symudodd i Lundain a dechreuodd astudio yng Ngholeg Bedford, lle cyfarfu â'i darparwr, yr awdur [Charles Morgan](#). Priodasant yn Llundain yn 1923, a ganwyd iddynt un ferch, [Elizabeth Shirley](#), yn 1924 ac un mab, Roger, yn 1926.

Cyhoeddodd Vaughan ddeg nofel rhwng 1925 a 1954; roedd ei gwaith yn boblogaidd a denodd edmygedd beirniaid llenyddol. Lleolir ei nofelau yn bennaf yn siroedd dwyreiniol Cymru, Brycheiniog a Maesyfed, lle'r oedd ei gwreiddiau teuluol hithau, er bod Sir Gaerfyrddin a Llundain yn lleoliadau pwysig yn rhai ohonynt. Cyhoeddwyd ei phedair nofel gyntaf, *The Battle to the Weak* (1925), *Here are Lovers* (1926), *The Invader* (1928), a *Her Father's House* (1930) gan gwmni William Heinemann. Cafodd y tair nesaf, *The Soldier and the Gentlewoman* (1932), *The Curtain Rises* (1935), a *Harvest Home* (1936) eu cyhoeddi gan Victor Gollancz, sef y wasg adain-chwith a gyhoeddodd waith amryw o awduron Cymreig yn ystod y 1930au. Lovat Dickson & Thompson a gyhoeddodd y nofela 'A *Thing of Nought*', yn 1934; mae'r stori hon wedi ennill clod arbennig ymysg ei gwaith oherwydd ei harddull delynegol a synhwyrus, heb y melodrama sydd yn amharu ar rai o'i nofelau. Macmillan a gyhoeddodd ei nofelau olaf, sef *Pardon and Peace* (1945), *Iron and Gold* (1948), a *The Candle and the Light* (1954).

Mae ei ffuglen yn tueddi i drafod gwrthdaro ynglŷn â rhywedd neu genedl, neu'r ddau beth. Dengys un o'i nofelau gorau, *The Soldier and the Gentlewoman* (1932) y themâu hyn i'r dim. Mae'r nofel yn mynd â ni yn ôl i'r cyfnod wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf i archwilio cysyniadau megis hunaniaeth, cenedl, perthyn, a hawliau tir. Cymraes bybyr yw Gwenllian, y prif gymeriad, ac mae hi'n gandryll nad yw hi'n medru etifeddu ei chartref ei hun oherwydd ei bod yn fenyw. Sais didoreth yw Dick, sy'n symud i Gymru i etifeddu'r ystad ac mae Gwenllian yn ei gasáu. Plâs Einon, yr ystad, yw kannwyll llygad Gwenllian ac mae'n barod i aberthu pawb a phopeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau yn eiddo i'w theulu. Mae'r stori yn debyg i nofel gynharach gan Vaughan, sef *The Invader* (1928), ond yn hon Saesnes, Miss Webster, yw'r mewnfudwr ac mae'r gwrthdaro rhyngddi hi a'r Cymro, Daniel Evans. Mae'r nofel gynharach yn gomedi, ond trasiedi lwyr yw *The Soldier and the Gentlewoman*, sydd yn dangos pa mor amryddawn oedd Vaughan am lunio naratifau gwahanol allan o'r un elfennau.

Roedd *The Soldier and the Gentlewoman* yn amlwg wedi taro tant gyda darllenwyr y 1930au gan ei bod wedi gwerthu'n arbennig o dda a chafodd ei haddasu'n ddrama ar gyfer y llwyfan yn Llundain. Yn sgil llwyddiant yr addasiad hwn, ysgrifennodd Vaughan ddwy ddrama ar y cyd â'r dramodydd Laurier Lister: *She Too Was Young* (1938) a *Forsaking All Other* (heb ei pherfformio).

Symudodd Vaughan a'i phlant i fyw yn yr Unol Daleithiau er diogelwch yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac ymddangosodd ei hwythfed nofel yno yn 1942, o dan y teitl *A Fair Woman*. Yn ddiweddarach, yn 1948, ail-gyhoeddwyd y nofel yn Llundain, o dan y teitl *Iron and Gold*. Mae'r gyfrol hon yn wahanol i'w gweithiau eraill am ei bod wedi ei seilio'n agos ar chwedl Gymreig, sef 'Merch Llyn y Fan Fach'. Ond mae themâu'r nofel yn debyg iawn i weddill ei gwaith: perthynas mab a merch, bywyd teuluol, rhywedd, pwysau cymdeithasol, yn enwedig ar ferched, a'r gwrthdaro rhwng perthyn a theimlo'n ddiethr. Yn y nofel mae Owain, ffarmwr lleol, yn cipio'r dylwythen deg, Glythin, o'r llyn i fod yn wraig iddo. Trwy gau tir y mynydd a thorri coed mae Owain yn meddiannu mwy a mwy o'r dirwedd wyllt, ac yn yr un modd mae'n ceisio dofi ei wraig, ond yn y diwedd mae'n methu gwneud hynny, ac mae hi'n dychwelyd i'w chynefin yn y llyn.

Ni chyhoeddodd Vaughan waith creadigol ar ôl y 1950au, efallai oherwydd bod ei gwaith yn swnio braidd yn hen-ffasiwn erbyn y 60au, pan ddechreuodd menywod ennill rhagor o ryddid yn eu bywydau. Mae eironi yn hyn oherwydd roedd ffuglen Vaughan yn flaengar yn ei chyfnod am ei bod yn canolbwyntio ar fywydau merched cyffredin nad oedd ganddynt lawer o hawliau.

Bu Hilda Vaughan farw yn Llundain ar 4 Tachwedd 1985.

Awdur

Katie Gramich

Ffynonellau

Katie Gramich, *Twentieth-century women's writing in Wales: land, gender, belonging* (Cardiff 2007)

Christopher W. Newman, *Hilda Vaughan* (Cardiff 1981)

Lucy Thomas, 'The Fiction of Hilda Vaughan (1892-1985): Negotiating the Boundaries of Welsh identity' (doethuriaeth anghyhoeddedig, Prifysgol Caerdydd, 2008)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hilda Vaughan](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [57650968](#)

Wikidata: [Q5761498](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2023-01-16

Hawlfraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

